# RECORDERS' NEWSLETTER

**Cylchlythyr y Cofnodwyr 31 (Haf 2013)**

Bues i'n traddodi sgwrs yn ddiweddar i Glwb Pensiynwyr Treorci. Fel sy'n digwydd yn aml mewn achlysuron a digwyddiadau fel hyn, mi godais sawl gem o wybodaeth a hysbysrwydd lleol, sydd heb fod ar gael yn unman arall. Y tro hwn, roeddwn i'n traethu'n huawdl am adfer ansawdd y dŵr yn Afon Rhondda. Arwydd o hyn, meddwn i, oedd bod pryfed cerrig, bronwennod y dŵr, gwyniaid, a dyfrgwn i'w gweld eto. Soniodd un o'r aelodau am bysgodyn bach o'r enw 'crachadon'. Saesneg Safonol sy'n fwyaf cyfarwydd i mi, wrth gwrs, ac efallai nad yw'r sillafiad hwn yn gywir. Yn ôl y boneddigesau, pysgodyn bach du oedd y crachadon. A hwythau'n ifanc iawn, byddent yn ei weld yng ngwaddod silt gwastraff glo'r Rhondda. Roedd hyn i gyd yn fy nharo fi fel un o'r creaduriaid yn 'Culhwch ac Olwen'. Pa rywogaeth o bysgod oedd y crachadon, felly? Mae'n anodd dweud.  Hwyrach taw pilcodyn neu grothell oedd y crachadon, wedi goroesi yn y llysnafedd du i gyd. Ond buaswn i'n dwlu cael gwybod rhagor! A yw hyn yn canu cloch gyda rhywun? Mae'n fy nharo i fod y stori hon yn adrodd chwedl bwysig o brofiad ac atgof pobl y Rhondda. Rhaid cadw'r chwedl hon yn fyw, yn sicr, gan ei bod yn dystiolaeth i'r newidiadau yn amgylchedd Afon Rhondda. Ac mae pobl yn dal yn fyw heddiw sy'n cofio'r newidiadau hyn!

**Tywydd**

Mae'n tywydd ni wedi parhau i fod mor chwit-chwat ag arfer, mor gyfnewidiol â haid o wenyn mewn ffatri losin. Parhaodd y gaeaf yn sych ac yn oer ar ôl y Nadolig, a sych ac oer hefyd oedd y gwanwyn wedyn. Hyd yn oed ym mis Mai, roedd golwg digon gaeafol ar y safleoedd glaswelltir. Ond daeth mis Gorffennaf yn chwa boeth ar sodlau hyn i gyd, gyda mis Awst annisgwyl o ddymunol ar ôl rhai o'n hafau diweddar. Beth fydd effeithiau hyn oll ar ein bioamrywiaeth dros y tymor byr - neu'r tymor hir, o ran hynny? Bydd raid i ni aros. Ond, wedi'r cyfan, efallai fod eich adroddiadau a'ch cofnodion chi yn cynnig ambell i glem;

Fel arfer, mae Marcus Middlehurst wedi darparu i ni gofnodion glawiad manwl a gofalus ar gyfer Treherbert;
Ionawr - Cyfanswm 337mm; uchaf 81mm ar y 29ain, a bu 365mm o eira. Chwech o ddyddiau sych.
Chwefror - Cyfanswm 139mm; uchaf 60mm ar y 14eg, a bu 35mm o eira. 14 o ddyddiau sych.
Mawrth - Cyfanswm 178mm; uchaf 43mm ar y 15fed, a bu 50mm o eira ar yr 21ain. 15 o

ddyddiau sych.
Ebrill - Cyfanswm 130.5mm; uchaf 37mm ar y 13eg gyda 16 o ddyddiau sych.
Mai - Cyfanswm 249mm; uchaf 53mm ar y 14eg 14 o ddyddiau sych.

Nododd Marcus iddo ychwanegu'r dyddiau sych gan fod y data yn ei feddiant, ac i'r cyfnod fod yn anghyffredin o sych i'r fro ers mis Ionawr!

Mehefin - Cyfanswm y glawiad 176mm. Uchaf 32mm ar 12fed Mehefin.
Gorffennaf - Cyfanswm y glawiad 118mm; uchaf 37mm ar y 28ain. Naw oedd cyfanswm y dyddiau glawog.
Awst - Cyfanswm y glawiad 268mm Glawiad uchaf 115mm, ar y 4ydd.

Rhoes Paul Marshman ychydig ffigurau pennawd i mi, wrth i dywydd poeth mis Gorffennaf gilio. Ers iddo ddechrau cofnodi tywydd Llwynypia dros 40 mlynedd yn ôl, dyma'r mis Gorffennaf twymaf erioed. Bu'r tymheredd ychydig dros 30 gradd ar sawl diwrnod y mis hwnnw. Dim ond 68mm o law a fu gydol Gorffennaf. Roedd dau ddiwrnod yn unig o fis Awst yn ddigon i guro hyn. Cofnododd Paul 60mm ar y 4ydd, a 50mm ar y 5ed.

**Adar**
Yn sgîl yr holl dywydd oer, arhosodd rhai o'n hadar mudol gaeaf yn ddiweddarach eleni. Gwelodd Paul Marshman **hwyaden ddanheddog** wrywaidd ar Afon Rhondda mor ddiweddar â Mai 2ail. Bu'r Gwanwyn yn hwyr iawn yn cyrraedd, ac roedd hi'n Ebrill 11eg cyn i mi glywed fy siff-siaffod cyntaf, sef dau wryw yn canu yng Ngwarchodfa Natur Leol Craig-yr-Hesg. (Tua mis yn ddiweddarach na'r arfer yw hyn.) Drannoeth, roedd **telorion yr helyg** a siff-siaffod yn canu ym Mhantgraigwen, Pontypridd. (Fel arfer, gryn bythefnos yn ddiweddarach bydd y siff-siaffod yn cyrraedd.)

Roedd y **gwenoliaid** hwythau yn hwyr eleni. Gwelodd Paul Marchman ei rai cyntaf ef yn ystod wythnos Ebrill 8fed, gyda 15 o wenoliaid a 10 o **wenoliaid y glennydd** uwchben yr afon yn Llwynypia ar y 14eg. Ar y 15fed y gwelais i fy ngwennol gyntaf. Roedd grwpiau ohonynt i'w gweld yn Aberdâr ac ym Mhontypridd. Fel arfer, fesul un y bydd y gwenoliaid yn ymddangos. Ond, yn ôl Paul, daethant yn eu heidiau'r gwanwyn hwn. Mae hyn yn awgrymu fod y tywydd oer wedi cadw'r adar i aros yn rhywle - yn Ffrainc neu Sbaen, o debyg. Wedyn, pan ildiodd yr oerfel o flaen y tywydd gwell, daeth yr adar yn un haid fawr. Gwelais **dinwennod y garn** hefyd, ar fryniau Llwynypia ar y 14eg. Roeddent mewn grwpiau o chwech, yn lle'r un neu ddau sydd fel arfer yn dechrau ymddangos ym mis Mawrth. Ar Ebrill 16eg, gwelodd Paul saith o siff-siaffod a thri o delorion penddu ar ei libart yn Llwynypia, ond dim un **telor yr helyg**. Serch hynny fe fu telorion penddu yn ei ardd gryn wythnos cyn hynny. Roedd un aderyn yno yn amddiffyn ei fwydwr adar yn erbyn pob aderyn arall, sy'n awgrymu fod gormod o'r adar newydd heb fwyta digon i allu canu eto. Crybwyllodd Paul fod **breision y cyrs** wedi mynychu'i ardd hefyd, yn ystod y misoedd llwm ddiwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn. Gallai'i gwylio yn hedfan i fyny'r cwm drachefn i'w tiriogaethau brwynog. Serch hynny, ni fyddent yn aros yno, ond gwell ganddynt ddychwelyd i'w ardd. Dyma dystiolaeth uniongyrchol eto mor eithriadol o hir a llwm oedd y gaeaf. Rhaid bod yr adar wedi bwyta pob un hedyn ar y llechwedd, a gorfod mentro i lawr i erddi pobl o ganlyniad. Fe welodd Paul **llwydfronnau** yn ei ardd yn gynnar ym mis Mai, ac roedd chwe rhywogaeth o nicos yn dal i fynychu'i fwydwyr adar. Fel ein hynafiaid

ni yn yr Oesoedd Canol, bydd yr adar ar eu mwyaf newynog ar ddechrau'r gwanwyn, yn enwedig os bu'r gaeaf yn hir a llwm. Ond, yn groes i'r patrwm diweddar, clywodd Paul ei **gog** gyntaf yn cyrraedd ar Ebrill 16eg, mor gynnar â'i gog gyntaf erioed ym 1974. Ac yn fwy croes byth i'r patrwm rhoes Mark Evans wybod fod ei ffrind Gordon wedi clywed un ar y 14eg, yng Nghefnpennar. Yn ôl Paul Marshman, gwanwyn 2013 oedd y gorau ar gyfer cogau ers sawl blwyddyn. Bu llawer mwy o adar lleol yn galw nag yn ystod sawl blwyddyn yn ddiweddar, ac roedd adar i'w clywed ar bob taith gerdded trawsluniad.  Ategodd Paul Denning y teimlad cyffredinol fod *cogau yn gwneud yn arbennig o dda.* Yn sgîl hyn, mae'r ffaith fy mod heb glywed yr un gog yn canu yn y gwanwyn hwn yn hala'r dincod arnaf i.

Er bod y gwanwyn mor araf deg yn cyrraedd, cawsom newyddion calonogol am **delorion y coed**yn y Cylchlythyr diwethaf. Daeth hanes pellach i'n calonogi oddi wrth Paul Denning: *Yn ystod mis Mai mi glywais o leiaf dri o delorion y coed gwrywaidd yn canu yng nghoed Gelli-wion, a gwelais **dingoch*** gwrywaidd. Gyrrodd Paul lun gwych ataf o delor y coed ar ganol telori. Roedd telorion y coed yn ôl yng Ngwarchodfa Natur Leol Glyncornel, lle clywodd Paul Marshman dri chorhedydd gwryw yn canu. Ac roeddwn i wrth fy modd ym mis Ebrill, wrth fod **corhedyddion y coed** yn meddiannu tiriogaeth yn Safle Glaswelltir Nant Celyn, Efail Isaf, sydd dan reolaeth y Cyngor.  Tua'r un adeg, soniodd Peter Harris, Tylorstown, am rai o'r adar yn ei ardd gefn. Roeddwn i'n llawn eiddigedd wrth nifer yr ymweliadau a gaiff Peter gan y **llinosiaid**. Yn yr oes sydd ohoni , heddiw, rhaid wrth lwc arbennig i gael llinosiaid, **titwod y wern, neu titwod yr helyg, i'ch gardd. Maent i gyd yn adar eithaf prin yn Rhondda Cynon Taf erbyn hyn. Soniodd Peter wrthyf am y fwyalchen** albino sy'n mynychu gardd ei fam-yng-ghyfraith. Mae albinoiaeth rannol yn ddigon cyffredin ymhlith mwyeilch, ond yn anaml bydd rhywun yn gweld albino cyfan.

Ym mis Ebrill, cefais lythyr gan Paul Carson yn sôn am ddau o'm hoff greaduriaid. *Rhyw feddwl oeddwn i yr hoffech chi glwyd am y **10 o jac-dos** a welais i yn tynnu blew o gefn fy nharw Albanaidd - ar gyfer gwneud nythod, mae'n debyg. Safai ein tarw ni yn hollol llonydd, yn amlwg yn mwynhau beth oedd yn mynd ymlaen."*  Mae hyn, wrth gwrs, yn disgyn yn dwt i hanesion 'Creaduriaid Craff' Marcus (gweler isod).

Safle bendigedig yw Safle Cefn Gwlad Allweddol Trychfa Penrhos, Nantgarw. Yn lle'r hen leiniau rheilffordd a'r leiniau aros, ceir bellach geunentydd coetir, gyda llwybrau seiclo yn lle nentydd a ffrydiau. Dyma gynefin delfrydol ar gyfer cyrchoedd lefel isel gan **weilch gleision**, ac fe welodd Kevin Oates a Gareth Henson helbul adar o'r fath ym mis Ebrill.  Cefais wybod gan Angharad Morgan, Ynys-y-Bŵl (drwy law Kevin Oates), fod cwpwl o nythod **gwennol y bondo** (sy'n newyddion da bob amser) ac hefyd **wenyn turio** (un o'm hoff greaduriaid) ar dŷ'i mam.

Ym mis Ebrill, eto, gyrrodd Jonathan Barrett luniau gwych o **dylluanod brychion** ataf. Meddai Jonathan,  '*Mi es i'n ôl i'r Maerdy heddiw, am dro araf i fyny'r afon. Credaf taw gwalch glas allan yn hela oedd yr aderyn cyntaf a welais i. Wedyn, ychydig heibio i Gastell Nos, dyma fi yn gweld tylluan frech. Llwyddais i dynnu'r camera allan, a thynnu tuag 20 o luniau syfrdanol (un ynghlwm). Bu llu o adar eraill, ond, gwaetha'r modd ...*
*Rwy'n sicr i mi weld **gylfingroes** eto yn Llanwonno, yn ogystal â nifer barchus o **frithyllod** , yn y pwll dŵr bach ym mhen uchaf yr hen gronfa yn Llanwonno.'* Cefais adroddiadau fod nifer y gylfin groesion wedi disgyn yn ein hardal ni'r llynedd. (Byddant yn crwydro coedwigoedd

Cymru i gyd, gan bridio a magu pan fydd y planhigfeydd yn hadu.) Gan hynny, roedd adroddiad Jonathan yn dderbyniol iawn. Bydd Jonathan yn gwylio lawer ar ein planhigfeydd coedwigaeth ucheldir. Ym mis Mai, fe gofnododd ef ddwy **gnocell werdd** ar wahân, a **chnocell fraith fwyaf** hefyd, yn Llanwonno. Gerllaw Tafarn Brynffynnon, fe glywodd ef y **gog**. Cofnododd ef **nicos** yn y Maerdy, a **nicos melyn** yn Llanwonno: adroddiad gogleisiol oedd yr ail gofnod - mae'n debyg taw pilaod gwyrddion oeddent, ond tybed ai **breision melyn a welsai Jonathan.** Roeddwn i'n falch i ddarllen cofnod Jonathan o **gudyll bach** *'ychydig bellter uwchlaw cronfa'r Lluest Wen, y Maerdy'.* Dyma gadarnhau fod y gweilch hardd hyn yn yr ardal o hyd.

Aeth Mark Evans i chwilio am **droellwyr mawrion** yn ardal Cefnpennar ym mis Mehefin, ac 'Er bod y tymereddau amgylchynol mewn ffigurau dwbl isel, roedd yr awel o'r dwyrain neithiwr yn gwneud rhywun yn eithaf oer. Clywais aderyn gwryw yn troelli yn y pellter, rywle draw yn rhan ddwyreiniol y safle. Gwryw arall (rwy'n meddwl) yn y rhan orllewinol oedd yr unig droellwr mawr arall a welais yno. Gwibiodd heibio i mi, ryw ddau fetr i ffwrdd, yn galw wrth hedfan. Nid oedd bwyd troellwyr mawrion i'w weld yn hedfan ar hyd lle. Pryf teiliwr oedd yr unig bryf arall a sylwais. Felly dyna'r troellwr mawr gwryw olaf yn hedfan i lawr i borfeydd brasach yng Nghwm Cynon, yn hedfan mor gyflym ag y gallai. Cafodd y sbriws eu hailblannu yno, a chredaf y bydd yr ardal yn gwella yn aruthrol ar ôl i'r coed newydd hyn wedi tyfu ragor, a'r llystyfiant ar y ddaear wedi cynyddu. Bydd hyn yn hyrwyddo poblogaeth pryfed sy'n hedfan.... A finnau ar y ffordd i lawr eto, roedd y gwryw yng Ngwaun Helen yn troelli, ac yn curo'i adenydd. Cyn i mi droi tuag adref, dyma fi'n mynd i'r maes parcio ym mhen uchaf Craig-y-llyn, edrych tua'r gogledd a chwilio am gymylau nosloyw. Clywais droellwr mawr yn troelli yn yr ardal gwympo i'r gogledd-ddwyrain o'r Llyn Fawr.' Dyma brawf felly fod poblogaethau troellwyr mawrion yn gwneud yn weddol yn Rhondda Cynon Taf. Mae llawer o larwydd wedi cael eu clirio, gan greu a mannau ac ardaloedd magu a bridio agored yn y planhigfeydd coedwigaeth, a byddai rhywun yn disgwyl i'r niferoedd godi am ychydig flynyddoedd eto.

Amser maith yn ôl, a finnau'n groten fach yn Ysgol Gynradd Bonneygrove, Swydd Hertford, dechreuais bori mewn hen lyfr clawr meddal am wylio adar. Ymhlith y lluniau du a gwyn mi welais **ddringwr bach** yn ei wasgu'i hun i mewn i'w nyth drwy hollt yn rhisgl y goeden. Dyna blannu ynof awydd i weld nyth dringwyr bach go iawn. Rwy'n dal heb weld un, ond mae Gary Welsby wedi gwneud. Gyrrodd adroddiad ataf am un ym Mharc Dowlais, ein Safle Cefn Gwlad Allweddol yn Llanilltud Faerdref. Am eiliad, roeddwn i'n dalp o genfigen. Ond mi welais â'm llygaid fy hun (yng nghwmni Gary) **farcud coch** uwchben Nant Celyn, Efail Isaf, ar Fehefin 5ed. Hefyd ym mis Mehefin fe gofnododd Paul Marshman adroddiad o **wybedogion mannog**, o Lyncornel ac o Fferm Tyntyla yn ei ran ef o'r Rhondda. Ym mis Gorffennaf fe welodd ef bedwar o **gochion y berllan** gwrywaidd, dwy fenywaidd, ac un ifanc, yn bwydo ar hadau onn.

Dyma adroddiad Jonathan Barrett: *Ryw brynhawn ym mis Medi, a minnau yn cerdded ger yr afon ym mhentref Tylorstown yng nghwmni Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Lee Clarke, mi welsom ni **las y dorlan** . Ychydig islaw Canolfan Chwaraeon Tylorstown roedd y lleoliad. A ninnau yn cerdded ger yr un afon rhwng Tylorstown a Chronfa'r Lluest Wen, byddwn ni'n gweld **crehyrod glas** bron bob tro.'*

Mae hi wastad yn rhoi gwefr i weld rhywbeth am y tro cyntaf, yn enwedig rhywbeth eiconig, trawiadol, a nodedig. Fel y dywedodd Mike Steers: *'Gyda Tony Swann roeddwn hi pan welsom ni farcud coch y tro cyntaf i mi. Dyna adar anhygoel yw'r rhain!'* Gwn y byddwn ni i gyd yn cytuno.

Anfonodd Tony chwe chofnod o adar nodweddiadol diwedd yr haf o Lanharan i'r Brynna.

1. 1 Mis Awst - Coed y Brynna - ger y bont dros Ewenni Fach - gweld gwybedog mannog yn cario bwyd. Ble'r aeth ef? Ni wn i, ond rhaid ei fod yn nythu'n lleol. Mewn lleoedd eraill y bydd y rhywogaeth hon yn bridio a magu fel arfer, ond mae'n well ganddi ardaloedd a mannau uwch, gyda mwy o fannau ac ardaloedd glaswelltog agored.

*2. 8fed Awst - Coed y Brynna - yr haid gyntaf o ditwod cymysg, ar ôl iddynt fridio a magu, a bwrw plu ar gyfer yr haf; yn cynnwys* ***titwod cynffon-hir, titwod mawr, titwod tomos las, ac un titw penddu***.

3. *12fed Awst - Gartref (ar Ystâd Nant-y-Deri, y tro olaf i mi weld cywion pluog* ***gwenoliaid duon*** *o flaen y tŷ, wrth i'r olaf o ddwy nythaid y flwyddyn hon ymadael. Byddaf yn colli clywed sgrechfeydd y cryn ddwsin o wenoliaid duon, fore a phrynhawn. Cefais argraff eleni eu bod yn hedfan yn is. Tybed a oeddent yn cael hwyl yn plagio'r gath? Sgersli belîf!*

*Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig yn cynnwys manylion symudiadau mudo yn y gaeaf. Mozambique i'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd - ddim yn ffôl!*

*Mae'r gwenoliaid duon lleol wedi dod i arfer addasu bylchau a adewir pan gaiff cafnau bondo ac estyll wynebu uPVC eu gosod. Mae'n ymddangos fod yno ddigon o fylchau yn cael eu gadael i'r adar nythu yn gyffyrddus.* Anfonodd Tony lun o hyn ataf. Mae'r hyn a welodd ef yn bwysig, gan fod yno bryder cynyddol y gallai ein defnydd cynyddol o doeau diddos a gwrth-dywydd eu cau allan. Gallai hyn fod yn rheswm am eu dirywiad. Yn ôl sylwadau Tony, mae'n debyg fod y gwenoliaid duon yn dechrau ymdopi. Ond ni fedraf deimlo mor ddiogel ynghylch gallu **adar y to**,)

4. *Cyrhaeddodd un wennol ddu unig fin nos y 16eg Awst ac ymweld â dau o leiaf o'r safleoedd a mannau nythu'r noson honno a bore trannoeth hefyd. Gwnaeth yr un peth y noson a'r bore wedyn, ac yna ddarfod megis seren wib. Tybed a fydd gwenoliaid duon yn barod i fwydo cywion ei gilydd? A'r cywion yn y nythod yn fy nhŷ i, daeth hyd at bedwar aderyn arall i ymweld â hwy. Roedd yr adar hyn yn ôl ac ymlaen fel bws gwennol o'r orsaf leol i Faes y Genedlaethol, yn enwedig amser bwydo'r cywion fin nos a chyda'r wawr. Tybed ai cyw yn y nyth oedd y wennol ddu unig hon y llynedd?*
5. *Erbyn dechrau'r hydref, roedd yr adar wedi cwblhau bwrw'u plu ar gyfer yr haf, ac roedd mwy ohonynt i'w gweld tua diwedd mis Medi. Serch hynny, er i'r tywydd fod yn eithaf mwynaidd ni welsom ragor o adar mudo'r gaeaf yn dechrau cyrraedd. Bu'r* ***bronfreithod a brychod*** *yn gynnar yn cyrraedd mewn blynyddoedd eraill, gan ychwanegu at niferoedd yr adar sydd eisoes wedi ymsefydlu yma. Byddant yn creu gwarchodaeth diriogaethol newydd ar goed a llwyni gydag aeron.*

6. *Tua diwedd yr haf wedyn roedd y tywydd yn ardderchog ar gyfer nytheidiau newydd. Ar hyn o bryd, mae dau bâr o* ***delorion y cnau yn dal i fwydo cywion pluog. Un peth rhyfedd a welais yr adar yn ei gario yn eu pigau oedd eirin duon bach*** *- un ar y tro, amser llawn.* Rwy'n siŵr nad oes ond ychydig o bobl yn cael gweld delorion y cnau yn bwydo'u cywion ag eirin duon bach, fel y gwnaeth Tony. Roeddwn i'n cymryd yn ganiataol nad yw'r eirin duon bach yn agos at fod yn aeddfed yn ystod tymor magu a bridio arferol delorion y cnau. Tybed ai cnawd yr eirin duon bach yw'u hoff fwyd, neu'r garreg y tu fewn - neu'r ddau?

Daeth newyddion da gan Mark Evans am **haid glwydfan** cigfrain Cynon a Merthyr yn ystod mis Awst: *Fore ddoe fe gyfrifais i haid glwydfan y cigfrain, a chael cyfanswm o 351. Dyma'r nifer fwyaf erioed ar gyfer yr haid glwydfan honno ym mis Awst.*

A minnau'n ysgrifennu, mae'r gwenoliaid a gwenoliaid y bondo, yn mynd drwodd ar eu ffordd allan. Gwelodd Strinda Davies dros 100 o wenoliaid y bondo yn bwydo mewn glaw ofnadwy, yn isel uwchben Afon Taf ym Mhontypridd ar Fedi 19eg. Ai adar lleol oedd y rhain, gyda chywion yn dal yn y nyth, neu adar mudol yn ymochel rhag y tywydd gwael, neu gymysgedd o'r ddau?

Ers 1997, bu Mark Evans a Martin Bevan yn ymgymryd â thrawslun Arolwg Adar sy'n Nythu, Magu, a Bridio'r Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig yn lleoliad SO 0501 (Cwmbach). Mae Mark wedi crynhoi peth o'r data craidd yn siartiau bar. Mae'n werth cnoi cil arnynt, yn sicr. Yn ystod 2013, cofnodwyd y nifer isaf o rywogaethau adar ar y trawslun yn ystod y 17 o dymhorau gwylio. Dyma un o'r tair nifer isaf o adar unigol o bob rhywogaeth a gofnodwyd mewn unrhyw flwyddyn. Braslun sydyn yw hyn, wrth gwrs, a gallai sawl rheswm fod y tu ôl iddo. Bu llawer o sôn dros y degawdau diwethaf am yr amgylchedd yn colli adar, ac mae hyn i'w weld yn ffigurau moel ein 20 o rywogaethau mwyaf cyffredin. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod nifer o rywogaethau anghyffredin a bregus sy'n agored i newid yn mynd ar goll, a hefyd fod poblogaethau sawl rhywogaeth gyffredin yn mynd yn fwy tenau bob dydd. Bydd angen monitro ac asesu tymor hir er mwyn torri'r dadleuon hyn. Dyna pam rydym ni mor lwcus i gael sgwariau Arolwg Adar sy'n Nythu, Magu, a Bridio yn Rhondda Cynon Taf a phobl sy'n fodlon eu harolygu. Bydd hyn yn gofalu a sicrhau fod Rhondda Cynon Taf yn cael ei chynrychioli yn y set ddata Brydeinig.

**Mamaliaid**

Yn ateb i'n cais am fwy o gofnodion mamaliaid, mae Mike Shrewing wedi darparu a chyflenwi'r canlynol ar gyfer ei ddarn ef o'r Rhondda. Maent yn cynnwys **bronwen** o Flaencwm (SN 92795 00198) yn 2008, a thebygrwydd o fod wedi gweld **ystlumod Natterers** ac **ystlumod barfog**, ynghyd ag **ystlumod lleiaf** ac **ystlumod soprano** yng Nghoed y Maendy, y Pentref (SS 96488 95507) yn 2009, gydag ystlumod cyffredin, ystlumod soprano, ac **ystlumod Daubenton** ger y Bontddu, y Pentref (SS 96684 95856), ac ystlumod lleiaf ger pont Windsor Street, Treorchy (SS 95454 96922). Ger Llyn Glyncornel, fe welwyd ystlumod Daubenton, ystlumod lleiaf, ac ystlum soprano.(SS 99384 93728).

Mi fues i'n trafod ystlumod Llanharan gyda David Harry, sydd wedi cael gafael ar synhwyrydd neu ganfodydd ystlumod. Cafodd hyd i amleddau galwadau ystlumod ar y Rhyngrwyd, a dyna fe yn bwrw ati wedi i ddatblygu prosiect gweithredu bioamrywiaeth leol ardderchog. Bu David

yn gwirio ac archwilio symudiadau ystlumod yn ei ardal, ac fe enynnodd ddiddordeb y cymdogion drwy roi benthyg y synhwyrydd neu ganfodydd ystlumod iddynt. Mae'n ddyddiau cynnar, wrth gwrs, a gwaith caled yw dehongli'r synau clician a'r bytheirio a ddaw o'r synhwyrydd neu ganfodydd ystlumod. Er hyn y mae rhyw ddarlun o symudiadau a gweithgareddau ystlumod y gymdogaeth yn dechrau ymffurfio.

Wedi hen ymsefydlu mae'r **ystlum pedol lleiaf**, sy'n clwydo a heidio yn ne-orllewin Rhondda Cynon Taf. Blwyddyn dda fu hi i'r ystlumod hyn, yn enwedig ar ôl i un o'r deiliaid tŷ lleol ddarganfod clwydfan, rhwst, neu nythfa fagu neu famolaeth fechan. Bellach, mae'n bryd i ni ddadansoddi sut mae'r ddwy haid glwydfan hon yn rhyngweithio.

Dal i ychwanegu at wybodaeth leol y mae Mark Steers. Meddai, *‘Mae digonedd o **wiwerod llwyd** yng Nghoed y Brynna, ac mae **gwahaddod** i'w gweld yn weithgar eleni. Gwelais lawer iawn o dwmpathau gwadd ar leiniau ymyl ffordd ym mis Ebrill, yn ogystal ag yng Nghoed y Brynna. Am y tro cyntaf ers 11 o flynyddoedd, mi welais rai yn fy ngardd, sydd am y clawdd â'r Coed.. Yn ôl adroddiadau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, mae olion **dyfrgwn** i'w gweld ar hyd afon Ewenni Fach. Ynghylch **mincod**, mae pobl leol wedi awgrymu fod y rhain yn bresennol ar hyd Ewenni Fach, ond ni wn i beth yw'r dystiolaeth, na pha mor ddiweddar. Mae **cadnoaid coch** yn ddigon niferus yn y coedydd, y coedwigoedd, a'u cyffiniau. Clywais rai yn galw ym mis Chwefror yn eithaf aml. O ran **cwningod,**, roeddent i'w gweld yn y Weirglodd Fach 10 mlynedd yn ôl ond nid oes olion bellach. Gwelais ddwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ardal dde-orllewinol y Coed.'* Trosglwyddodd Mark ryw dystiolaeth am weithgareddau **moch daear** yn yr ardal leol, dim ond tystiolaeth o wâl neu frochfa.

Roeddem ni wedi awgrymu yng Nghylchlythyr y Mamaliaid fod **ysgyfarnogod** wedi'u cyfyngu i dde-orllewin Rhondda Cynon Taf. Mae'n debyg er hyn fod Jonathan Barrett wedi cael hyd i safleoedd eraill, gydag ysgyfarnog ar y ffordd ger Rhiwsaeson, Llantrisant, ac ‘ail *ysgyfarnog yr wythnos ddiwethaf ar hen Fforddd y Plwyf, on the edge of Coed Llanwonno*’. Mae'r cwningod i'w gweld yn eithaf ffyniannus yn Lanwonno ar hyn o bryd. Gwelodd Jonathan heidiau ohonynt yn y goedwig, yn ogystal â ger swyddfeydd y Cyngor ger Trewiliam. Tua deng mlynedd yn ôl, bu ychydig adroddiadau posibl o **feleod** a **gwiwerod coch.** Gan hynny, mae adroddiad posibl Jonathan am weld bele yng Nghoed Llanwonno yn ogleisiol a dweud y lleiaf. *'Roeddwn i'n eistedd ar fainc yn gwylio beiciau yn mynd heibio. Tynnodd rhywun fy sylw at greadur yn debyg i wiwer goch yn croesi Llwybr 47, y brif ffordd dân yn Llanwonno. Ond sylweddolais i'n fuan fod y creadur yn rhy hir i fod yn wiwer. Sylweddolais beth ydoedd ychydig cyn iddo ddiflannu i'r isdyfiant.'*

Ffwlbartod marw bydd rhywun yn eu gweld ar y ffordd fel arfer, ond gwelodd Wynford a Jill Price un **byw** yn croesi Ffordd Ynys-y-Bŵl ym Mhontypridd yn gynnar ym mis Mai. Cefais dri adroddiad am **fincod** wedi'u lladd gan geir. Dyma'r adroddiad a gefais gan Janine Bridge: *‘A finnau'n teithio tua'r gwaith fore heddiw ar hyd ffordd dyffryn Elái o Goedelái i Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gwelais finc marw ar y ffordd. Gorweddai'r minc hanner ffordd i lawr, ac ar yr ochr dde wrth i rywun fynd ar i lawr.* Anfonodd Jonathan Barrett lun ataf o'r minc marw a welodd ar yr A473 rhwng Tonysguboriau a Llanharan. Creaduriaid dygn a barus yw mincod. Dywedodd Wayne Davies, Aberaman, wrthyf am y minc oedd yn bwyta'r pysgod aur

ym mhwll dŵr ei ardd fesul un. Deuai'r creadur yn ôl yn rheolaidd, a bachu'r pysgod drwy rwyll metel dwy fodfedd sgwâr galfanedig dros y pwll.

**Adroddiad Sgwaryn Nas Cofnodwyd**
Mae gan CCBDDC (Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru) arfer rheolaidd o nodi a phennu sgwaryn 4km sgwâr sydd heb lawer o gofnodion bioamrywiaeth, a gofyn i naturiaethwyr lleol unioni'r diffyg. SS9592 oedd y sgwaryn o'u dewis y gwanwyn hwn. Mae'n gorwedd tua phen uchaf dyffryn Cwm Clydach, gyda rhan yn Rhondda Cynon Taf a rhan ym Mwrdeistref Pen-y-bont. Ymatebodd Ron a Linda Nottage i'w alwad ar 6ed Mai. Dyma ddisgrifiad Linda o'r hen a welsant:*'A ninnau'n cerdded i fyny'r llwybr garw o Barc Gwledig Cwm Clydach, mi welsom ni ddau neu dri o blanhigion o'r* ***cnwp-fwsogl mawr*** *a'r* ***cnwp-fwsogl corn carw*** *ger llwybr y goedwig, (ychydig heibio i'r tip gwastraff, tua SS959922). Rhyw amau oeddem ni y byddai hyn o ddiddordeb, gan eu bod mor anghyffredin ym Morgannwg. Gwelsom sawl peth byw diddorol yn y sgwaryn hwnnw, gan gynnwys* ***broga melyn*** *a heidiau o* ***benbyliaid*** *mewn pyllau dŵr bach yn ymyl y llwybr. Roedd ychydig* ***chwilod teigr gwyrdd*** *i'w gweld hefyd, ar y llwybr i'r Garn Fawr. Ar y glaswelltir garw i'r dwyrain o Fynydd Gwilym Meyrick, roedd* ***ehedyddion*** *yn canu, a* ***chorhedyddion y waun hefyd,*** *a* ***thinwen y garn*** *gwrywaidd. Roedd adar braidd yn brin yn y goedwig. Synnais i weld tyrbinau gwynt yno - nid ydynt ar ein map ni!*

*Roedd mwy o adar i'w gweld yn y sgwaryn cyfagos, SS9692, gyda digonedd o delorion yr helyg yn canu. Hefyd roedd yno* ***gorhedyddion y coed***, ***llwydfron****, a phâr o* ***siglennod llwyd*** *ger y llyn uchaf. Ymhlith y pryfed yno roedd chwilod teigr gwyrdd,* ***y gwenynbryf mawr, gwynion gwythiennau gwyrddion***, ***gwynion blaen oren****, a* ***mentyll peunod****.*

**Mynyddoedd Aberdâr**
Chwi gofiwch i mi fod yn traethu'n helaeth yn y Cylchlythyr diwethaf am Fynyddoedd Aberdâr, Cenia. Dyma'r e-bost a gefais wedyn gan Mark Evans: *'Anghofiais sôn ddoe fod un o'm cwsmeriaid wedi rhoi i mi ddysglaid o de, wedi'i dyfu ar lethrau Mynyddoedd Aberdâr. Wel am gyd-ddigwyddiad!'*

**Ffyngau**
Mae Mark Steer wedi gyrru disgrifiad gwych o'r ffyngau yng Ngwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Coed y Brynna ger Llanharan. Mae'i rhestr yn cynnwys **ysgwydd y fedwen**, **cap niwl**, **y twyllwr**, **paled y peintiwr**, **peli duon**, **ffwng melog**, **cap inc gloyw,**, **coden euraid gyffredin a/neu goden euraid fraith,**, **torthau'r Tylwyth Teg**, **cwpan melyn**, **cyrn gwyn, crwstyn glas**, **cap tyllog coch**, **glud gwyn** a **chrwst melyn**.

Fe yrrodd Mark ragor o fanylion yn sgîl y rhestr drawiadol hon. Soniodd hefyd mor anodd yw hi i adnabod a nodi rhai o'r grwpiau o ffyngau; '*Y cap tyllog a welaf amlaf, mae'n bosibl, yw* ***Xerocomellus engelii****. Er gwaethaf hynny, digon anodd yw cael hyd i wybodaeth a hysbysrwydd am y rhywogaeth hon. Rwy'n amau hefyd i mi weld* ***cap tyllog garw (Boletus submentosus)****. Eleni, fel o'r blaen, mae'r capiau tyllog wedi'u cuddio â rhyw lwydni* ***Hypomyces chrysosperus****, o bosibl. Mae hyn yn gwneud cael hyd i'r capiau tyllog yn haws - ond bod eu hadnabod a'u noddi wedyn yn amhosibl! Mae iSpot yn ddefnyddiol, ond digon tenau yw'r wybodaeth a hysbysrwydd gyda rhai o'r sylwadau ar ffyngau. Rwy'n methu deall sut cafodd ambell un ei wneud. Mae gan iSpot broblem gyda diffyg arbenigwyr i gynorthwyo a*

*helpu gwaith adnabod a nodi ffyngau.'*

*'Dyma ragor o'r ffyngau a welwyd yn ddiweddar;* ***cap brau llygatddu (Russula atropurpea), ysgwydd yr helygen (Daedaleopsis confragosa), capiau poplys (Agrocybe cylindraca****) - o dan poplysen ddu groesryw ger hen Fferm Hendrewen, yr hyfryd lwydni llysnafedd a elwir* ***cyfog y ci (Fuligo septica),***
***cap inc y coblyn (Coprinellus disseminatus), corn carw gwelw (Calocera pallidospathulata), smotyn du (Rhytisma acerinum), ysgwydd felen (Polyporus sulphureus*** *tu fewn i hen dderwen gau),* ***polypor cloronog (Polyporus tuberaster*** *sy'n hawdd ei gamgymryd am gyfrwy cennog, er yn digwydd fel unigolion fel arfer),* ***cynffon y twrci (Trametes versicolor), Exida planna*** *(ar goncrid 100* mlwydd oed), **cyfrwy cennog (Polyporus squamosus** - blwyddyn dda i'r rhywogaeth hon) a **tharian yr hydd (Pluteus cervinus).'**

Fel y dywedodd Mark *'Byddaf yn gweld llawer yn rhagor o ffyngau, ond yn methu'u hadnabod a'u nodi. Fel y dywedais gynnau, nid arbenigwr mohonof. Mwyaf i gyd yw fy ngwybodaeth, mwyaf i gyd yw f'anwybodaeth!'* Mae'r broblem hon yn diwn gron ym mhob maes o hanes naturiol. Dyma ran o'r bagad gofalon, wrth gwrs - ond rhan o'r swyn hefyd!

Gyda champ Mark yn ysbrydoliaeth i mi, ymwelais â Mynwent Cefn Parc am 20 munud yng nghanol mis Medi. Cefais hyd i bump o leiaf o wahanol ffyngau cap cŵyr. (Defnyddiais wefan capiau cŵyr Prifysgol Aberystwyth ar http://ww.aber.ac.uk/waxcap/cymraeg/index.shtml.) Ymhlith y rhain roedd **cap cŵyr melyn** (***Hyrgrocybe chlorophora)*** sydd â lliw digon agos i lemwn), y cap coch **ffibrog gwridog *(Hygrocybe intermedia)***
a **chap coch y weirglodd *(Hygrocybe pratensis)***.

**Amffibiaid ac Ymlusgiaid**
Roeddwn i mewn sefyllfa ddelfrydol i weld faint o amser fydd ei angen i **grifft brogaod** ddeor Cafodd dau glwstwr eu 'dodwy' ym mhwll dŵr fy ngardd ar Fawrth 7fed, ac fe ddeorodd y rhan - os 'deer' yw'r term cywir - ar Ebrill 9fed. Tua mis sydd ei angen, felly.

Cefais adroddiad cyffrous iawn gan Ian Norris, drwy law Kevin Huish, am ddwy wiber mewn glaswellt hir ar ymyl Parc Ffynnon Taf. Un diwrnod twym ym mis Gorffennaf, roedd Brian Webb yn archwilio hen dip ger Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf, ac fe welodd bedwar gwiber. Yn ôl disgrifiad Brian, mae'r safleoedd, *' at ei gilydd, wedi gordyfu'n wyllt, gyda llawer o stablau a thomen dail yn gyfagos'* : mae'r safle ar dir preifat, ac mae Brian wedi gweld gwiberod ar yr un lleoliad o'r blaen.

Cafodd Ben Williams, Ton-teg, flwyddyn orlawn a llwyddiannus yn ei ardd, gyda phump o frogaod, 28 o **fadfallod dŵr palfog** ac un **neidr ddefaid**.

**Creaduriaid Di-asgwrn-cefn**
Rydym ni i gyd yn poeni am ein buchod coch cota brodorol, a goblygiadau'r **fuwch goch gota harlecwin** farus newydd arnynt. (Cafodd Sonia Knowles hyd i ddwy o'r rhain ar y biniau sbwriel y tu allan i'n swyddfeydd ni yn Llwyn Castan, Pontypridd). Gwelais ragor o fuchod

coch 7-smotyn eleni (sy'n beth da, wrth gwrs), a chefais y canlynol gan Mark Evans: *'ynghylch y* ***fuwch fach gota smotyn aren****, cefais hyd i un mewn helygen ddeilgron ger clwydfan aeaf yr ystlumod ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, a thynnu llun ohoni. Mae gwefan i'w chael ar gyfer cofnodi adroddiad am weld buchod coch cota, ac islwytho dau lyfryn canllaw PDF ar fuchod bach cwta aeddfed a larfau hefyd. Mae'r Arolwg buchod bach cwta i'w weld ar: <http://www.ladybird-survey.org/default.aspx>'.* Ydych chi wedi darganfod buwch fach gota yn gaeafgysgu yn eich tŷ? Chwiliwch am ei manylion ar y wefan!

Yn sgîl y gwanwyn oer, roedd nifer y gloÿnnod wedi lleihau a gostwng yn sylweddol yn y gwanwyn a'r haf cynnar. Roedd llawer o'r rhain wedi oedi cyn dod allan, ac ym mis Mehefin roedd niferoedd mawr o **wynion blaen oren** yn dal i hedfan ym Mharc Ffynnon Taf (yn ôl Kevin Huish), Parc Nant Celyn, ayyb). Yn lle ymddangos ym mis Chwefror ar gyfer y gwanwyn eleni, daeth **arhosodd melynion y rhafnwydd** tan fis Mehefin cyn dod allan o'u gaeafgwsg. Er nad oedd mor gynnes â hynny, fe welodd Strinda Davies **glesyn y celyn** ym maes parcio'r Iard Nwyddau, Pontypridd, ar Fai May 3ydd. Fe welodd Paul Marshman **brithribin gwyrdd** yng Nghwm Bodwenarth, y Gelli, yn gynnar ym mis Mehefin, gyda **gweirlöynnod bach y waun, mentyll peunod,** a **gweirlöynnod brych**.. Roeddwn i wrth fy modd hefyd i weld fod **trilliwiau bach** yn llawer mwy niferus eleni. Un diwrnod ym mis Gorffennaf eleni, yn y cae tu ôl i'm tŷ, roeddwn i'n sefyll hyd at fy ngwasg mewn ysgall yr âr, gyda rhyw 50 neu 60 o drilliwiau bach newydd ddod allan yn heidio o'm cwmpas. Roedd hi fel golygfa o ryw Orffennaf yn y Saithdegau, pan oedd trilliwiau bach mor gyffredin nes bod rhywun yn eu hanwybyddu. Bellach, ni fyddaf byth yn anwybyddu'r gloÿnnod prydferth dihafal hyn. Mynnaf aros i'w hedmygu bob tro. Cefais argraff fod **gweirlöynnod y glaw** wedi mwynhau haf da iawn hefyd, gyda llawer o'r gloÿnnod brown tywyll gwych hyn yn gwibio dros y dirwedd fel meddwon ar brynhawn o Orffennaf.

Flwyddyn neu ddwy yn ôl, cofnododd Ben Williams gadwyn o gytrefi o'r **brithribin wen** ar hyd darn Rhondda Cynon Taf o Afon Taf. Tipyn o fatsien wlyb oedd y llynedd i'r rhan fwyaf o loÿnnod, ond mae Ben wedi tynnu fy sylw at y niferoedd da sy'n dod allan unwaith eto'r haf hwn. Cefais dystiolaeth bellach o'u niferoedd eleni drwy Ben, a drosglwyddodd y neges hon gan Paul Denning: '*Rhyw feddwl oeddwn i y byddai o ddiddordeb i chi glywed fod fy ffrind Adrian Meredith wedi gweld dau frithribin W wen mewn lleoedd a mannau rhyfedd yn ddiweddar, a thynnu lluniau ohonynt. Gwelwyd yr un cyntaf ar y ddaear y tu allan i Lyfrgell Tonypandy, gyda'r llwyfanen agosaf 50 metr i ffwrdd. Roedd yr ail yn hel neithdar ar fieri ym Mhenrhiwfer, lle nad oes llwyfen yn tyfu o gwbl.* Ac rwyf wedi gweld y gloÿnnod swynol hyn ym mrigau'r coed unwaith eto eleni, ym Meisgyn, Pont-y-clun. Gwelodd Martin Bevan a Mark Evans lawer ohonynt yng Nghwm Cynon, a gadawaf i Mark esbonio: *Cefais e-bost ar 14eg Gorffennaf gan Martin Bevan i ddweud ei fod wedi gweld wyth o frithribiniaid W wen ar yr un safle yn Nhresalem, fel yn 2012. Yr wythnos cyn hynny, roedd wedi gweld* ***chwilen wenyn*** (sy'n greadur gwerth ei weld) yno hefyd.

*Yn sgîl darllen yr e-bost honno, dyma fi'n mynd draw ar 18fed Gorffennaf i graffu ar y* ***llwyfennau llydanddail****, ar lan Afon Cynon, ym Mhenderyn. Tua naw o'r gloch oedd hi, ar fore heulog. Ar ôl gwylio brigau'r coed am ychydig funudau, fe welais frithribin wen yn gwibio i fyny o un goeden. Yn ystod yr hanner awr nesaf, gwelais rai unigol yn gwibio'n gyflym o le i le, a phâr yn dawnsio o gwmpas ei gilydd hefyd. Mae'r coed hyn yn tyfu 230m uwchben lefel y*

*môr. Fel y dywedodd Martin, "Os oeddech chi wedi gweld rhai i fyny yno, rhaid bod heidiau ohonynt ar hyd y Cwm."*

*Dyma fi'n mynd am dro bach ar 19eg Gorffennaf i ymweld â rhyw lwyfennau llydanddail a adwaenwn i, ar lan Afon Cynon yng Nghwmbach. Cefais ddychryn ar y dechrau i weld fod rhai yn marw o glefyd llwyfen yr Iseldiroedd, ond pleser oedd gweld glöyn bach llwydaidd ei liw yn hedfan o'm hochr i o'r afon i'r ochr draw. Yn fuan wedyn, mi welais un arall yn sydyn, yn gwibio o gwmpas canghennau allanol y llwyfanen fechan iach lle roeddwn i yn sefyll. Gwyliais am ychydig eto, a dyma löyn benywaidd yn glanio ar ddeilen tua phum metr i ffwrdd. Glaniodd hi ar wyneb uwch y ddeilen, ac yna ymlusgo ar unwaith i'r ymyl a throsodd i'r wyneb is. I lawr â hi ar hyd y petiol i'r sbrigyn, a dechrau cnithio blaen ei habdomen ar y sbrigyn o gwmpas y cwgn, lle mae petiol y ddeilen yn asio â'r sbrigyn. Roedd hi'n amlwg taw dodwy wyau oedd hi, er na allwn i weld yr wyau, hyd yn oed drwy f'ysbienddrych. Buodd hi'n cnithio blaen ei habdomen bump neu chwech o weithiau yn yr un fan fechan honno, cyn crwydro ymhellach ar hyd y sbrigyn i archwilio'r cygnau eraill. Cyn i mi ymadael er mwyn dychwelyd i'r gwaith, euthum i archwilio un llwyfanen fawr, iach, a gweld un brithribin W wen yn gwibio o gwmpas ochr heulog y goron. Ar sail yr hyn a welais i a Martin - a Ben, wrth gwrs - mae'n debyg fod cytrefi ohonynt lle bynnag y mae grwpiau o lwyfennau llydanddail yn tyfu ledled y Cymoedd.'* Bydd y cytrefi brithribinau W wen hyn i gyd yn cael lle yn yr atlas gloÿnnod cenedlaethol.

Ym mis Gorffennaf, mi ddes i ar draws **gweirlöyn cleisiog** ar Ystâd Dai Cae Faerdref, yn Llanilltud Faerdref. Rhois wybod i Ben Williams a Paul Denning. Dyma'r ateb a gefais gan Paul: '*Mi wn fod pobl yn gyfarwydd â gweirlöynnod cleisiog fel creaduriaid mudol, i'w gweld yn aml ar safleoedd glan môr - Trwyn Larnog, Heliport Caerdydd, ayyb. Mi wn hefyd eu bod yn bridio a magu ym Mharc Cwm Darren ger Bargoed. Er hyn i gyd, ni allaf eu dychmygu yn gwasgaru mor bell â Llanilltud Faerdref. Dyna pam rwy'n amau fod poblogaeth fridio a magu fechan o weirlöynnod cleisiog rywle yn yr ardal. Ar Orffennaf 15fed, mi es ar daith gerdded Grŵp Botaneg Morgannwg ym Mharc Cefn Onn, Caerdydd. Mewn glaswelltir ychydig i'r gogledd o'r Parc, fe welson weirlöynn cleisiog, a thynnu llun ohono. A ninnau'n cyrraedd pen uchaf yr hen chwarel, yn edrych dros Gaerffili, fe welsom ni un arall!'* Efallai nad oes gennych fawr o ddiddordeb mewn gloÿnnod, ond mae gweirlöynnod cleisiog yn amlwg, arbennig, a neilltuol. Glöynnod eithaf mawr yw'r rhain, yn ddu a gwyn i gyd. Y mae perygl y byddech yn eu camgymryd am frith y cyrens, wrth gwrs. Fel mae'n digwydd, cefais lun o un o'r rhain yn yr ardd gan Margaret Harding, y Beddau.

Mae lleiniau ymyl ffordd osgoi newydd Pentre'r Eglwys yn llawn blodau gwyllt, sydd i gyd wedi cytrefu yma yn naturiol. Dyna brawf eto'i fod yn well rhoi rhwydd hynt i Natur. Ni fyddai hadau cymysg o siop wedi llwyddo hanner cystal. Yn ogystal â hyn, mae'r blodau yn dod o hadau lleol. Mae'r rhain yn rhan wirioneddol o'n bioamrywiaeth. Ydych chi eisiau hybu blodau gwyllt? Ceisiwch weithio ar y cyd â Natur, heb gael eich hudo i dalu crocbrisiau am hadau cymysg. Dyma air bach o brofiad gan Ben am y gloÿnnod a'r gwyfynod a welodd ef ar y ffordd osgoi ym mis Awst: *'Roedd fy ngwraig wedi fy llusgo allan am dro ar hyd y ffordd osgoi heddiw, ac fe synnais i weld cynnydd y blodau. Dyma le gwych i hel neithdar, gyda digonedd o loÿnnod i'w gweld yno. Mi welais i 15 o* ***leision cyffredin*** *gwrywaidd, a thri benywaidd. Yn ogystal â hyn mi welais un* ***argws brown*** *- profiad hollol newydd i mi* a'r rhywogaeth yn newydd i Rondda Cynon Taf hefyd. *Roedd niferoedd mawr o* ***wynion mawr, gwynion bach, a***

***gwynion gwythiennau gwyrddion****, mentyll paun rif y gwlith, ac ychydig drilliwiau bach.* ***gweirlöynnod y ddôl, gweirlöynnod y perthi,*** *a gweirlöynnod brych. Ond, yn goron ar y cyfan, mi welais* ***bedwar lindysyn gwalchwyfyn llygeidiog*** *yn bwydo ar helyg deilgrwn. Roedd tri ohonynt ryw dair modfedd o hyd, ac yn eu hinstar olaf, ond roedd un yn eithaf bach ac angen tyfu rywfaint eto. Roedd yno gytref fach o* ***flaenau brigau*** *hefyd, hwythau yn bwydo ar helyg deilgrwn ymhellach i lawr. Roedd y rhain, hefyd, mewn gwahanol gyfnodau a chamau datblygu. Mae golwg gwych ar laswelltiroedd y gors, ac mae* ***tamaid y cythraul*** *ar fin dechrau blodeuo. Rhaid i mi roi mwy o sylw i beth sy'n digwydd ar fy nhrothwy fy hun!* A ninnau'n sôn am damaid y cythraul, mae Alex Brown wedi cofnodi adroddiad am safle newydd ar gyrion Bannau Brycheiniog (estyniad i safle cyfarwydd yw hyn, mewn gwirionedd). Soniodd hefyd am ardal neu fan ychwanegol i frithegion y gors geisio'i defnyddio.

Ymddengys fod **brithegion y gors** wedi cael blwyddyn dda yn ardaloedd gogleddol yr Hirwaun a'i chyffiniau, ond bod pethau'n siomedig yn ardal Tonyrefail. Yn Awst a Medi y bydd gweoedd lindys brithegion y gors yn ymddangos ar damaid y cythraul. Byddant yn rhannol guddiedig, mewn twmpathau, tuswau, a sypiau o laswellt y gweunydd. A fuoch chi erioed yn syllu ar eich traed am oriau, yn baglu drwy laswelltir corsiog? Bydd eich gwddw yn mynd yn gyff, a'ch arleisiau yn ddechau curo, ond fe anghofiwch chi'r cyfan wrth i chi faglu ar draws gwe o lindys mân, mân. Bydd gwaith monitro gweoedd brithegion y gors yn werth pob ymdrech wedyn! Mae Ben Williams, a gafodd hyd i nifer o weoedd godidog yr hydref hwn, wedi bwrw ati i gyfansoddi;

*Es draw i Donyrefail un prynhawn*
*A chrwydro'n unig, brin fy nysg a'm dawn,*
*Yn chwilio drwy'r holl flodau hardd*
*Heb obaith byth cael dod yn fardd*
*Nes i mi weld, â gwên a chwardd,*
*Tair gwe larfau Euphydryas aurinia*
*Yn ddiddos a diogel ymhlith y mholinia*

Gwn nad yw Ben yn barod i gynnig am y Goron neu'r Gadair eto, ond nid oes gwadu diffuantrwydd ei benillion tlysion. Dyma fynegiant croyw o'r holl ing, anobaith, angerdd, a gorfoleddu a ddaw i ran y sawl sy'n ymroddi i fonitro britheg y gors.

A finnau yng Nghwm Clydach ar Orffennaf 22ain, mi welais bump neu bedwar o **frithegion perlog bach**. Rhai benywaidd yn dodwy wyau oedd dau ohonynt, un ar ochr ddeheuol y llyn uchaf, a'r llall yn y cwm i'r ochr sy'n rhedeg o lan ogleddol y Llynnoedd Uchaf. Roeddent yn dodwy mewn glaswelltir nodweddiadol, yn denau ar y cyfan ond gyda chlystyrau o fioledau yma ac acw. Nod cylchlythyr ardderchog Richard Smith ''Frits About' yw cydlynu, cydgysylltu, a chyd-drefnu manylion yr holl frithegion a welwyd ac a welir yng Nghymru. (Cofiwch gysylltu â mi os am wybod rhagor.) Yn ôl y cylchlythyr, roeddwn i wedi adrodd am **frithegion perlog bach** ar Gomin Llantrisant, er nad mor niferus â'r blynyddoedd diweddar. Darllenais hefyd fod Paul Denning wedi gweld hyd at 10 ar y Comin yn gynharach ym mis Mehefin. Cefais hyd i'r glöyn bendigedig hwn ar Gors Llanilltud Faerdref ym mis Mehefin, lle nad oeddwn i wedi'i weld ers dros ddeng mlynedd. Gwelais niferoedd da ohonynt ar gae'r Cyngor ym Mharc Eirin,

Tonyrefail. Mae Ben a Richard S wedi gweld glöynnod mewn gwahanol leoedd eraill yn Nhonyrefail a'r cylch.

Mae **gwenyn meirch a phicwn** dan y lach weithiau, gyda phobl yn gofyn 'Beth yw diben gwenyn meirch a phicwn?' o hyd. Pan welwch y gweithwyr o'u plith yn hofran yn yr ardd tua diwedd yr haf, ac yn ymhyfrydu mewn plagio pobl sy'n bwyta hufen ia, hawdd deall eu problem cysylltiadau cyhoeddus. Ond fe fydd gwenyn meirch a phicwn wrthi'n ddiwyd am y rhan fwyaf o'u bywydau yn casglu cynrhon, pryfetach, a larfau. Yn sicr ddigon, maent i'w cyfrif ymhlith ffrindiau garddwyr. Er treulio'u bywydau yn dilyn trywydd digon union, bydd llawer ohonynt yn troi'n bla gwirioneddol wrth iddynt heneiddio. Fodd bynnag, fe ddaeth adroddiad oddi wrth Marcus Middlehurst am ddigwyddiad yn gysylltiedig â gwenyn meirch a phicwn yn gynharach y yr Haf. *'Mae dau nyth gwenyn meirch a phicwn yn nho fy mwrdd adar. Heddiw, penderfynasant ddod all, a chefais nifer o luniau braf o'r ddau nyth. Roedd pob un tua 55mm ar draws, Gwnaethant ddefnydd o wagle gofod to a gawsai'i ddylunio fel dau flwch adar. Amau ydwyf i fod y gwenyn meirch a phicwn wedi cyrraedd yno gyntaf, gan i mi weld aderyn bach yn ceisio gwella'r fynedfa, cyn i'r gwenyn meirch a phicwn feddiannu'r lle.*

Anfonodd Marks Steers nifer o gofnodion braf am greaduriaid di-asgwrn-cefn yng Nghoed y Brynna. Roeddent yn cynnwys *'**chwilen olew** (Meloe violaceus) yng Ngweirglodd y De, ger y brif reilffordd. Gwelais nifer o'r rhain yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd) wedi cadarnhau hyn. **Adenydd duon** (Odiezia atrata) yng Ngweirglodd y De, lle mae digonedd o **gnau daear** a **chwilod y gwaedlif** (Timarcha tenbricosa). Cafwyd hyd i hwn ar lwybr troed grisiau concrid ger Maywood. Roedd un yn yr un lle yn gywir y llynedd. Yr Amgueddfa oedd wedi'i adnabod a'i nodi.*

A Paul Denning yn tynnu lluniau o weision neidr ger Glofa'r Cwm, *'fe welodd **fursennod cynffon las** ar bwll dŵr yno, a thynnu lluniau ohonynt. Nid wyf yn sicr am eu statws yn Rhondda Cynon Taf, ond mi wn eu bod yn brin yng ngweddill Morgannwg*.' Flynyddoedd maith yn ôl, a finnau'n byw yn Llanilltud Faerdref (tua hanner milltir o'r Cwm), cefais olwg sydyn ar fursen gynffon las yn fy ngardd gefn fach i. Ar y pryd, cymerais yn ganiataol fod y pryfyn wedi crwydro o Dipiau'r Cam, lle mae pyllau, corffrydiau, a chornentydd bas yn cynnig cynefin delfrydol iddynt. Mursen osgeiddig a chain yw'r fursen gynffon las, i'w gweld yn fwy bregus na'i chyfnither y **fursen dinlas** hyd yn oed. Yma yn y De, mae'n rhoi enghraifft arall o'r rhywogaethau a gysylltir â safleoedd glofeydd. Dyma ddangos unwaith eto sut y gall hen safleoedd diwydiannol ddarparu a chyflenwi cyflwr ac amodau cynefinoedd sy'n efelychu cartrefi naturiol nifer o rywogaethau. Dagrau pethau yw bod cartrefi naturiol llawer o'r rhywogaethau hyn yn ddigon prin bellach.

Ym mis Gorffennaf, cefais hyd i **bicellwr cribog** gwrywaidd (**Orthetrum coerulescens**) . Pyllau cors yw cynefin arbenigol y creadur hwn. Fe'i gwelais ger Pant-y-Brad, Tonyrefail, ac nae rhagor ar Gomin Llantrisant

**Creaduriaid Craff**

Mae Marcus Middlehurst wedi cynnig syniad i'r cylchlythyr, un a allai ddod yn boblogaidd iawn. Dyma sydd ganddo i'w ddweud:

*'Dros y blynyddoedd fe welais ac fe glywais am anifeiliaid ac adar yn amlygu cydweithrediad, deallusrwydd, a difyrrwch, ac fe garwn i glywed am brofiadau darllenwyr eraill. Dyma ychydig enghreifftiau i gychwyn:-*

*1) **Un** llygoden Ffrengig yn gorwedd ar ei chefn, ac yn cydio yn dynn mewn wy iâr, a llygoden Ffrengig arall yn ei llusgo gerfydd ei chwt tua'u twll!*

*2) Dwy **wylan** (neu ragor, weithiau) yn aflonyddu ar **grëyr glas** sy'n cario pysgodyn yn ei geg - un wylan yn hedfan islaw'r crëyr glas, yn barod i ddal y pysgodyn pan fydd y crëyr glas yn gollwng gafael arno. I'w weld yn eithaf cyffredin.*

*3) Tair **pioden** yn dawnsio ar do fy nhŷ adar i wneud iddo siglo ar ei wialen fain. Bydd hyn yn sarnu'r bwyd ar yr hambwrdd allan i'r llawr, gan roi cyfle i'r piod wibio i lawr i'w fwyta!*

*4) Defaid ger Ysbyty Llwynypia, ac mewn mannau eraill, yn croesi'r grid gwartheg ar y tyle drwy orwedd i lawr a RHOLIO dros farrau'r grid!*

*5} Ceffylau mewn stablau yn cael eu gollwng yn rhyd gan geffylau eraill sydd wedi'u clymu yn gyfagos ond sy'n gallu cyrraedd y byllt!*

*Rwy'n siŵr fod hanesion tebyg gan lawer o ddarllenwyr - gadewch i ni'u clywed hefyd!*

**Clefyd y Llus** Mae Mark Evans wedi cael braw o weld sut mae clefyd sy'n effeithio ar lus (mwyar y brain) yn ymledu ar ddarn o'r llechwedd uwchlaw Cwmbach. Mae Mark yn disgrifio'r symptomau, a diddorol fyddai gwybod a welodd rhywun rai tebyg mewn mannau eraill yn Rhondda Cynon Taf: *'Ymddengys nad yw smotiau ar y dail mwyar y brain ddim yn achosi diddeilio. Serch hynny, bydd y smotiau mor ddifrifol weithiau nes bod y rhan fwyaf o'r ddeilen a'r coesyn neu fôn yn troi'n goch, gydag ardaloedd a mannau o feinwe yn farw. Ni adewir ond ychydig o arwyneb ffotosyntheseiddio'r ddeilen i weithredu yn normal. Yn ychwanegol at hyn, mae'n bosibl fod y smotiau ar y coesynnau a bonion yn effeithio ar y system fasgwlar.*

*Treuliais lawer o amser yn yr ardaloedd a mannau iach hyn yn nhreigl y degawdau, ac yn 2010 y deuthum ar draws hyn yno am y tro cyntaf. Nid oeddwn i erioed wedi gweld dim byd yn debyg ar Vaccinium (llus/mwyar y brain), ac yn sicr rwyf heb weld egin a phlanhigion Vaccinium yn marw ar raddfa mor helaeth bob blwyddyn.*

**Botaneg**

Bu Martin Bevan yn monitro unig gytref **tegeirianau bera** Rhondda Cynon Taf. Maent yn tyfu ym mhlanhigfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru (y Comisiwn Coedwigaeth gynt) uwchlaw Llwydcoed. Y mis Gorffennaf hwn, cyfrifodd Martin 48 o bennau blodau.

Draw yn Nwyrain Anglia, mae **clychau'r gog** yn tyfu mewn coedydd a choedwigoedd clychau'r gog. Draw yn y Gorllewin, mae'n clychau'r gog ni yn gartrefol ym mhob man. Un o ogoniannau bywyd yn y Cymoedd yw sefyll ger unrhyw arosfa fws ym mis Mai, a gwylio hen lesmeiriol baent clychau'r gog ar y llechwedd. Ymddengys i glychau'r gog fwynhau blwyddyn arbennig o lwyddiannus eleni. Disgrifiodd Paul Marshman 'môr o las' yn gynnar ym mis yn

gynnar ym mis Mehefin. Bydd clychau'r gog wastad yn hwyr yng Nglyncornel - ond bob amser yn odidog ac ysblennydd. Yn ôl Nodyn Jonathan Barrett *'Cefais fy synnu eleni gan niferoedd clychau'r gog yn Rhondda Cynon Taf. Ni chofiaf eu gweld mor niferus â hyn erioed. Maent i'w cael ym mhob man.'*

Mae Margaret Harding wedi gyrru lluniau o **leision y gaeaf deilgrwn** (**Pyrola rotundifolia)** yn tyfu mewn llecyn newydd ar Dipiau Glofa'r Cwm, y Beddau. Cafodd Margaret gymorth a help Wendy Carruthers a'i gŵr Robert i nodi'r lleoliad fel ST 06536 86430 yn bendant, ar uchder o 131m ar Ddydd Llun 15fed Gorffennaf 2013. Rhywogaeth i laciau'r twyni (sef y mannau gwlyb rhwng twyni Cynffig) yw glesyn y gaeaf deilgrwn. Eto i gyd, mae'r planhigyn i'w weld yn ffynnu mewn gwastraff glofa gwlyb. Cofnod Margaret yw'r bedwerydd adroddiad o leiaf a gefais ar gyfer y rhywogaeth yn Rhondda Cynon Taf. Mae pob un ar wastraff glofa. Wedi cyrraedd o lan y môr mae'r hadau hyn, rywsut neu'i gilydd. Rhaid eu bod yn ddigon hapus ar y glo mân yma.

Sylwodd Mark Steers fod y **galingosa blewog** *(Galingosa ciliate)* yn tyfu'n doreithiog ar Randiroedd Brynna. Yn ôl llyfr Wade et al. 'The Flora of Glamorgan', rhywogaeth ddigon anghyffredin a gafodd ei yw galingosa blewog. Newydd-ddyfodiad wedi'i gyflwyno ar ddaear wedi'i amharu a'i tharfu ydyw, a dyna pam mae'n ffynnu ar randiroedd.

Cefais e-bost ogleisiol o ddiddorol gan Paul Denning: *'Wyt ti'n ymwybodol o'r **ganewin** sy'n tyfu yn y lonydd hen iawn i'r gogledd o Bentre'r Eglwys? Dyma blanhigyn eithaf prin ym Morgannwg. Botanegydd lleol o'r enw David Barden gafodd hyd i'r boblogaeth hon, yn 2012. Cafodd hyd i rai yn tyfu (yn cuddio yn y gwrychoedd a pherthi) ar bedwar safle. Mae cryn bythefnos i fynd cyn iddo ddechrau blodeuo, ac mae golwg eithaf brodorol arno ar hyn o bryd. Pan ddaw'r blodau allan, gwnaf bwynt o dynnu llun.'* Briweg frodorol yw canewin. Yn ôl 'Wildflower Key' Francis Rose, dyma rai o'i nodweddion:  planhigyn suddlon tua 20-60cm o daldra, gyda dail cwyraidd, a blodau cochlyd a phorffor mewn pennau dwys yn debyg i wmbelau - p liw'r fioled, ond yn fwy o gymeriad! Dyma un o rywogaethau brodorol yr hen wrychoedd a lonydd. Fel Paul, ni allaf weld pam na fyddai'r lonydd hynafol a'u cloddiau yng nghyffiniau Pentre'r Eglwys ddim yn lleoliad hollol naturiol.

Bu llanw a thrai cyson yn hanes **tegeirianau'r waun** ym Mynwent Cefn Parc, Llantrisant. Pam? Dywedwch chi! Mae gweddill yr amrywiaeth gyfoethog o fflora glaswelltir yn y fynwent yn cael budd a mantais o'r gwaith rheoli gweirgloddiau yn y fynwent. Fe ddylai tegeirian y waun ffynnu yn sgîl y gwaith rheoli, ond dyma hi yn dal i ballu lluosi a lledaenu. Am rwy ddwy i dair o flynyddoedd, bu nifer y rhai oedd yn blodeuo ar gynnydd yn raddol. Gwpwl o flynyddoedd yn ôl, roedd dros 40 ohonynt. Ond, yn sgîl tywydd ofnadwy 2012, fe gwympodd y nifer i 13. Eleni, cael a chael oedd hi i gyrraedd y nifer hon eto. Ar yr ochr olau, maent i'w cael bellach mewn dau leoliad ym mannau ehangach y gweirgloddiau. Dyna lle rydym am eu hyrwyddo. Yn dilyn tywydd trychinebus 2012, bu gwanwyn hwyr 2012 2012 yn faen tramgwydd arall i brosesau blodeuo. Dyma a sylwodd Margaret Harding ym mis Mai *Roeddwn i'n benderfynol gweld a oedd ein tegeirianau ni yn hwyr yn sgîl y tywydd gwael ... newydd flodeuo mae'r tegeirianau, gydag wyth yn y llecyn arferol, ac un arall yn y ddôl neu weirglodd tua'r pen uchaf'.* Gobeithiaf yn arw y cawn well siâp arni'r gwanwyn nesaf.

Ym mis Gorffennaf, fe nododd Paul Marshman bedwar o blanhigion oedd i'w gweld yn ffynnu ymhlith y llaciau a thrylifiadau ar lechweddau Llwynypia; **eirinllys pedronglog, dail ceiniog y gors, clychlys dail eiddew** a **llafn y bladur**. Disgrifiodd hefyd sut mae ychydig blanhigion o **greulys y rhos** wedi ailymddangos rhwng Ffynnon Fair  a hen Safle Ysbyty Llwynypia ar ôl absenoldeb maith.  Mae'n bosibl taw aflonyddu a tharfu ar bridd ochrau ffosydd sydd wedi sbarduno hyn.  Ond nid yw hyn yn ddim o'i gymharu â'r sbloetsh o greulys y rhos sy'n tyfu ar ochr draw'r Cwm. Bu llosgi eithin yno yn ddiweddar, a pharodd hyn gryn aflonyddu a tharfu i'r pridd. Cafodd Paul hyd i filoedd o'r planhigion yn tyfu yno.  Yn ôl cyfrol 'The Flora of Glamorgan', mae creulys y rhos *yn blanhigyn lleol iawn. Bydd i'w weld gan amlaf mewn gweundir clogwyni asidig ym Mhenrhyn Gŵyr, ac ar dwyni asidig yno ac ym Mro Morgannwg.* Dyma gofnod ofnadwy o ddiddorol yn y Rhondda, felly.

Diolch unwaith eto am eich cofnodion, a hoffwn ymddiheuro os digwyddais adael rhywbeth allan. Cofiwch roi gwybod i ni os byddwch yn symud tŷ, neu'n newid cyfeiriadau e-bost. A dwedwch hefyd p'un fyddai'n well gennych, o ran papur neu e-bost, a pha iaith fyddech chi'n ei hoffi.

Richard Wistow, Ecolegydd
CBS Rhondda Cynon Taf
Llwyn Castan
Library Road
Pontypridd, CF37 2YA
Richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk